

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister	1
Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services	3
Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport	4

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Hyrwyddo Datblygiad Cynaliadwy Promoting Sustainable Development

Q11 Lynne Neagle: Will the First Minister make a statement on promoting sustainable development in Wales? OAQ1281(FM)

C11 Lynne Neagle: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am hyrwyddo datblygu cynaliadwy yng Nghymru? OAQ1281(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): We continue to promote sustainable development in line with the Assembly's sustainable development scheme, and we are making good progress in implementing the Assembly Government's sustainable development action plan.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Yr ydym yn parhau i hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn unol â chynllun datblygu cynaliadwy'r Cynulliad, ac yr ydym yn gwneud cynnydd da o ran rhoi cynllun gweithredu datblygu cynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad ar waith.

Gweithredu'r Contract Ocsigen Newydd Implementation of the New Oxygen Contract

C12 Rhodri Glyn Thomas: Will the First Minister make a progress report on the implementation of the new oxygen contract? OAQ1289(FM)

Q12 Rhodri Glyn Thomas: A wnaiff y Prif Weinidog roi adroddiad cynnydd am weithredu'r contract ocsigen newydd? OAQ1289(FM)

The First Minister: We are working with Department of Health and the relevant private suppliers to ensure that the problems, recently outlined by the Minister for Health and Social Services, are resolved as quickly

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn cydweithio â'r Adran Iechyd a'r cyflenwyr preifat perthnasol i sicrhau bod y problemau a amlinellwyd yn ddiweddar gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

as possible.

yn cael eu datrys cyn gynted â phosibl.

Ymrwymadau Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government Commitments

Q13 Jocelyn Davies: Will the First Minister make a statement on the delivery of Welsh Assembly Government commitments? OAQ1287(FM)

The First Minister: The Assembly Government continues to make good progress on the manifesto commitments outlined in 'Wales: A Better Country'. We have introduced free school breakfasts across 19 local education authorities, and initiated a free prescription policy that will see charges dropped to £3 in April 2006, with no charges from April 2007.

C13 Jocelyn Davies: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflwyno ymrwymadau Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ1287(FM)

Y Prif Weinidog: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i wneud cynnydd da o ran yr ymrwymadau maniffesto a nodwyd yn 'Cymru: Gwlad Well'. Yr ydym wedi cyflwyno brecwast am ddim mewn ysgolion ar draws 19 awdurdod addysg lleol ac wedi cyflwyno polisi presgripsiwn am ddim—bydd prisiau yn gostwng i £3 ym mis Ebrill 2006, ac ni fydd unrhyw gost o gwbl o fis Ebrill 2007.

Cronfeydd Strwythurol Structural Funds

Q14 The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German): Will the First Minister make a statement on planning for the next round of structural funds? OAQ1261(FM)

The First Minister: The Welsh European Funding Office is working closely with partners in the private, local government, education and voluntary sectors to prepare the new operational programmes and plan for their implementation with wide-ranging consultations on each programme document scheduled for this summer.

C14 Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynllunio ar gyfer y rownd nesaf o gronfeydd strwythurol? OAQ1261(FM)

Y Prif Weinidog: Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn cydweithio'n agos â phartneriaid yn y sectorau preifat, llywodraeth leol, addysg a gwirfoddol i baratoi'r rhaglenni gweithredol newydd ac i gynllunio ar gyfer eu rhoi ar waith. Mae proses o ymgynghori pellgyrhaeddol ar bob dogfen raglen wedi ei threfnu ar gyfer yr haf hwn.

Gweithredu Addewidion Implementation of Pledges

Q15 Janet Ryder: Will the First Minister make a progress report on the implementation of his Government's pledges? OAQ1288(FM)

The First Minister: Please refer to the response to question 13, OAQ1287(FM).

C15 Janet Ryder: A wnaiff y Prif Weinidog roi adroddiad cynnydd am weithredu addewidion ei Lywodraeth? OAQ1288(FM)

Y Prif Weinidog: Gweler yr ymateb i gwestiwn 13, OAQ1287(FM).

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to the Minister for Health and Social Services

Cyflwr y Gwasanaethau Iechyd
The State of Health Services

Q11 The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): Will the Minister make a statement on the state of health services in Mid and West Wales? OAQ0687(HSS)

C11 Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwr y gwasanaethau iechyd yn y Canolbarth a'r Gorllewin? OAQ0687(HSS)

The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons): 'Designed for Life' includes action to improve health, social care and wellbeing for all, and transform services. Implementation will require changes to ensure they are safe and sustainable. The NHS organisations in mid and west Wales will be issuing their regional reconfiguration plan for consultation in April 2006.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons): Mae 'Cynllun Oes' yn cynnwys camau i wella iechyd, gofal cymdeithasol a lles ar gyfer pawb ac i weddnewid gwasanaethau. Er mwyn eu rhoi ar waith bydd angen gwneud newidiadau i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn gynaliadwy. Bydd sefydliadau'r GIG yng nghanolbarth a gorllewin Cymru yn ymgynghori ar eu cynllun ailgyflunio rhanbarthol ym mis Ebrill 2006.

Ysbyty'r Glowyr, Caerffili
Caerphilly Miners' Hospital

Q12 Laura Anne Jones: Will the Minister make a statement on the closure of the Caerphilly Miners' Hospital? OAQ0697(HSS)

C12 Laura Anne Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gau Ysbyty'r Glowyr yng Nghaerffili? OAQ0697(HSS)

Brian Gibbons: The closure of Caerphilly Miner's Hospital, which was subject to a full public consultation exercise, will only take place once the new hospital is commissioned.

Brian Gibbons: Ni fydd Ysbyty'r Glowyr yng Nghaerffili, a fu'n destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn, yn cau hyd nes y caiff yr ysbyty newydd ei chomisiynu.

Deintyddion sydd wedi gadael y GIG
Dentists who that have left the NHS

Q13 Janet Davies: Will the Minister make a statement on the number of dentists who have left the NHS? OAQ0717(HSS)

C13 Janet Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y deintyddion sydd wedi gadael y GIG? OAQ0717(HSS)

Brian Gibbons: The number of dentists in Wales who provide some NHS care fluctuates as contracts open and close during the year. In September 1999, there were 998 dentists; by 31 October 2005 this figure had risen to 1,086 general dental practitioners in Wales with 55 vocational dental practitioners in their training year.

Brian Gibbons: Mae nifer y deintyddion yng Nghymru sy'n darparu rhywfaint o ofal GIG yn amrywio fel y mae contractau'n agor ac yn cau yn ystod y flwyddyn. Ym mis Medi 1999, yr oedd 998 o ddeintyddion, erbyn 31 Hydref 2005 roedd y ffigur hwn wedi codi i 1,086 o ddeintyddion cyffredinol yng Nghymru gyda 55 o ddeintyddion galwedigaethol ar eu blwyddyn hyfforddi.

Cyllideb Gyffuriau ar gyfer GIG Cymru Drugs Budget for the Welsh NHS

Q14 Michael German: Will the Minister make a statement on the drugs budget for the Welsh NHS? OAQ0652(HSS)

C14 Michael German: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb gyffuriau ar gyfer GIG Cymru? OAQ0652(HSS)

Brian Gibbons: Local health boards' 2006-07 net revenue allocation for primary care drugs is £545.6 million, including £45.0 million within the dispensing doctors element of the GMS contract allocation. Drugs prescribing in hospitals is traditionally funded from the discretionary revenue allocation for hospital and community health services and is not separately identifiable.

Brian Gibbons: Dyranriad refeniw net 2006-07 byrddau iechyd lleol ar gyfer cyffuriau gofal sylfaenol yw £545.6 miliwn, sy'n cynnwys £45.0 miliwn yn yr elfen ar gyfer meddygon sy'n rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn, o'r dyranriad contract GMC. Mae cyffuriau sy'n cael eu dosbarthu mewn ysbytai yn cael eu hariannu'n draddodiadol gan y dyranriad refeniw yn ôl disgresiwn ar gyfer ysbytai a gwasanaethau iechyd cymunedol ac nid oes modd ei nodi ar wahân.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport

Digwyddiadau Chwaraeon Mawr Major Sporting Events

Q9 Alun Cairns: Will the Minister make a statement on what financial assistance is available for major sporting events in Wales? OAQ0635(CWS)

C9 Alun Cairns: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer digwyddiadau chwaraeon mawr yng Nghymru? OAQ0635(CWS)

The Minister for Culture, Welsh Language and Sport (Alun Pugh): The Welsh Assembly Government invests significantly in attracting major sporting events to Wales. For instance, our investment in the Ryder Cup in 2010 will amount to £3.5 million per year.

Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh): Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn buddsoddi'n helaeth mewn denu digwyddiadau chwaraeon mawr i Gymru. Er enghraifft, byddwn yn buddsoddi £3.5 miliwn y flwyddyn yng Nghwpan Ryder 2010.

Atebwyd cwestiynau 10, 11, 12, 13 ac 14 yn y Siambr.

Questions 10, 11, 12, 13 and 14 were answered in the Chamber.

Blaenoriaethau'r Celfyddydau Priorities for the Arts

Q15 Nick Bourne: What are the Minister's priorities for the arts over the next 12 months? OAQ0639(CWS)

C15 Nick Bourne: Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog mewn perthynas â'r celfyddydau dros y 12 mis nesaf? OAQ0639(CWS)

Alun Pugh: My priorities for the arts are set out in my remit letter to the Arts Council of Wales, issued on 29 December 2005.

Alun Pugh: Mae fy mlaenoriaethau ar gyfer y celfyddydau wedi eu pennu yn fy llythyr cylch gwaith at Gyngor Celfyddydau Cymru a anfonwyd ar 29 Rhagfyr 2005.

